



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



Rheoli maetholion ar lefel uwch yn niwydiant defaid Cymru - diweddariad

Mae nifer o ffermwyr yn ansicr o statws maetholion neu statws afiechyd eu mamogiaid magu, ac mae hynny'n gallu ei gwneud yn anodd i ffermio yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl. Ar adegau, mae diffyg perfformiad yn cael ei feio ar gyflenwi gormod neu ddim digon o wahanol elfennau hybrin. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r farn hon bob amser yn seiliedig ar dystiolaeth gref. Fel rhan o'r prosiect Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru hwn, mae deuddeg fferm ar draws Gogledd Cymru wedi bod yn ceisio rhoi dull deallus a blaengar o reoli maetholion ar gyfer mamogiaid magu ar waith, gan edrych ar anghenion unigol y ddiadell o ran elfennau hybrin, gan geisio cydbwysu hynny gyda rhesymau eraill posibl dros ddiffyg perfformiad.

Yn dilyn profion a gynhaliwyd cyn y tymor hyrddda yn 2018, rhoddwyd ychwanegion i rai o'r diadelloedd. Roedd y gofynion penodol yn amrywio o un fferm i'r llall: roedd ambell fferm angen mwy o gopr, rhai angen seleniwm, eraill angen cobalt, ac eraill angen sinc. Ar gyfer 10/12 o'r diadelloedd, roedd angen addasu rhywfaint ar eu hychwanegion elfennau hybrin, naill ai o ran cyfansoddiad yr ychwanegion, yr amseriad neu'r modd yr oeddent yn cael eu rhoi. Mewn nifer o achosion roedd ffermwyr yn gallu addasu er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o ychwanegion, ac mewn rhai achosion, i leihau nifer yr ychwanegion neu'r dosau a roddwyd, gan arbed arian ac amser. Er enghraifft, roedd un fferm wedi gallu rhoi'r gorau i ddefnyddio drensh cyn troi at yr hwrdd ynghyd â bolws adeg sganio a defnyddio'r un bolws, ond ei roi cyn troi at yr hwrdd. Roedd hyn yn arbed gwaith ychwanegol ac yn arbed arian. Symudodd nifer o'r ffermydd i roi bolws cyn troi at yr hwrdd yn hytrach na chyn wyna er mwyn cael budd ychwanegol o'r ychwanegion wrth feichiogi ac ar ddechrau'r beichiogrwydd, gan barhau i elwa o'r ychwanegion o gwmpas amser wyna. Nid oedd un o'r ffermydd eraill yn rhoi unrhyw elfennau hybrin ychwanegol, ond gwelwyd bod angen seleniwm a chobalt.

Yna, cymerwyd samplau'n agos at y cyfnod wyna i ganfod statws egni a phrotein y mamogiaid a'r statws elfennau hybrin. Roedd hyn yn helpu monitro'r ymyriadau a wnaed. Gwnaed ychydig o addasiadau bychain iawn yn seiliedig ar hyn, yn enwedig o ran bwydo dwysfwyd ac ychwanegu copr. Er enghraifft, roedd y canlyniad yn dangos nad oedd rhai o'r mamogiaid yn bwyta digon felly roeddent mewn perygl o ddiodef tocsaemia beichiogrwydd, felly byddai modd addasu'r bwyd er mwyn osgoi hyn; byddai hynny hefyd yn debygol o fod wedi cynyddu cyfanswm ac ansawdd y llaeth a gynhyrchwyd. Roedd dwy ddiadell yn dangos lefel dychrynlyd o isel mewn copr er gwaetha'r cynllun a'r camau a gymerwyd, gan bwysleisio pwysigrwydd monitro gan fod pob dafad yn defnyddio'r ychwanegion yn wahanol. Gwnaed addasiadau i'r cynlluniau at y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Yn ystod y prosiect, o ganlyniad i oruchwyliaeth gynyddol o'r diadelloedd, daeth sawl ffermwr yn ymwybodol o glefydau heintus ymysg y defaid gan gynnwys tocsoplasmosis a campylobacteriosis a oedd yn achosi cynnydd yng nghyfran y mamogiaid gwag yn ogystal ag erthyladau. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn gan wella iechyd a chynhyrchiant y mamogiaid ymhellach.

Defnyddiwyd samplau gwaed, meinwe'r iau a samplau ysgarthion pellach i edrych ar statws elfennau hybrin y diadelloedd eto cyn diddyfnu/cyn hyrdda 2019 er mwyn helpu i ymchwilio'r newidiadau tymor hwy o ganlyniad i ymyriadau a wnaed ac i fireinio'r cyngor a roddwyd. Cafodd sgor cyflwr corff y mamogiaid ei gofnodi unwaith eto, a'r tro hwn, roedd y defaid ar nifer o'r ffermydd wedi cyrraedd eu cyflwr targed, er bod rhai ohonynt yn dal i fod angen magu cyflwr (Ffigwr 2). O ystyried yr amser a oedd ar gael cyn troi at yr hwrdd, roedd digon o amser i'r mamogiaid fagu'r cyflwr angenrheidiol ar yr amod bod digon o borthiant ar gael.


Bu presenoldeb parasitiaid hefyd yn cael ei ymchwilio drwy gydol y prosiect. Roedd yn syndod bod llyngyr yr iau yn bresennol mewn nifer o'r diadelloedd a samplwyd ar ôl diddyfnu yn 2019. Gallai hyn fod wedi digwydd o ganlyniad i'r gaeaf mwyn, gan alluogi goroesiad llyngyr heintus ar y borfa, gan arwain yn y pen draw at ail-heintio ar ôl triniaeth yn ystod tymor y gaeaf. Amlygodd hyn fod angen sicrhau bod rhaglenni monitro a rheoli parasitiaid ar bob fferm, yn enwedig y rhai hynny a oedd mewn perygl o ddiodef haint llyngyr.

Nid oedd nifer o'r ffermwyr sy'n rhan o'r prosiect hwn yn sgorio cyflwr corff eu mamogiaid yn rheolaidd. Gall y broses hon eich cynorthwyo i lunio cynlluniau pori a rhagweld problemau cyn iddynt ddigwydd. Yn wir, yn 2018, roedd nifer o'r defaid yn llawer is na'r cyflwr corff targed cyn cael eu troi at yr hwrdd (Ffigwr 1), a chafodd hynny effaith sylweddol ar y canrannau sganio a welwyd. Roedd hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r haf sych iawn ac y byddai nifer o'r diadelloedd wedi cael budd o dderbyn ychwanegion gyda phorthiant wedi'i silweirio er mwyn sicrhau bod cyflwr y corff yn cael ei gynnal, er nad oedd hynny wedi bod yn bosibl mewn rhai achosion. Yn 2019, roedd sgôr cyflwr corff wedi gwella ac roedd nifer o ffermydd mewn sefyllfa i allu gwneud newidiadau cadarnhaol i'r arferion pori a rheoli parasitiaid fel y byddai modd rheoli cyflwr corff yn well ac yn fwy effeithlon.


Mae'r dull samplu elfennau hybrin a'r technegau a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn wedi dangos buddion penodol i'r ffermydd sy'n cymryd rhan, yn enwedig o ran galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau deallus a phenodol yn ymwneud ag ychwanegu elfennau hybrin. Fodd bynnag, un o'r negeseuon pwysig i bob ffermwr oedd monitro sgôr cyflwr corff mamogiaid yn rheolaidd ac addasu arferion pori a bwydo ychwanegol yn brydlon er mwyn sicrhau bod y defaid yn cyrraedd y sgôr cyflwr corff gorau posibl ar gyfer pob cam yn eu cylchred atgynhyrchu. Neges allweddol arall oedd sicrhau bod unrhyw ychwanegion elfennau hybrin yn cael eu rhoi'n seiliedig ar dystiolaeth o'r angen yn hytrach nag arferion hanesyddol, gan fonitro'n briodol i sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol ac yn effeithlo.

Mae'r swm sylweddol hwn o ddata a gasglwyd bellach yn cael ei ddwyn ynghyd a'i ddadansoddi i chwilio am themâu cyffredin ar draws diadelloedd ac i fireinio dull

archwiliadol ar gyfer diadelloedd eraill. Mae nifer o gyfarfodydd trafod hefyd wedi cael eu cynnal i drafod profiadau ffermwyr unigol ac i adlewyrchu ar unrhyw gynnydd.



Ffigwr 1: Sgôr cyflwr corff cymedrol ar gyfer mamogiaid a gyflwynwyd cyn y cyfnod hyrdda yn ystod Hydref 2018 o'i gymharu â'r sgôr targed ar bob fferm.



Ffigwr 2: Sgôr cyflwr corff cymedrol ar gyfer mamogiaid a gyflwynwyd ar ôl diddychu ac ar ôl y cyfnod hyrdda yn ystod Haf 2019 o'i gymharu â'r sgôr targed ar bob fferm.